**Ar drothwy'r Grawys**

**Y Cymry yn Genedl**

**Darllen Eseia 52:1, 7–10**

Cofiwch eich bod yn genedl trwy ordeiniad Duw; am hynny, gwnewch yr hyn a allwch, i gadw'r genedl, trwy gadw'i hiaith, a phob peth gwerthfawr arall a berthyn iddi. Os byddwch anffyddlon i'ch gwlad a'ch iaith a'ch cenedl, pa fodd y gellir disgwyl i chwi fod yn ffyddlon i Dduw ac i'r ddynoliaeth? Na fydded arnoch gywilydd o'r pethau hynny sy'n eich neilltuo oddi wrth genhedloedd eraill; ac os mynnwch ddynwared y genedl nesaf atoch, dynwaredwch hi yn y pethau y mae hi yn rhagori arnoch...

Gan i Dduw eich gwneuthur yn genedl, ymgedwch yn genedl; gan iddo gymryd miloedd o flynyddoedd i ffurfio iaith addas i chwi, cedwch yr iaith honno; canys wrth gydweithio â Duw yn ei fwriad tuag atoch bydd yn haws i chwi ei gael wrth ei geisio. Pwy a ŵyr nad yw Duw wedi cadw'r Cymry yn genedl hyd yn hyn am fod ganddo waith neilltuol i'w wneuthur trwyddynt yn y byd? Ni fyddai yn niweidiol i chwi gredu hynny, pa un bynnag. Y mae llawer cenedl fach wedi myned yn genedl ddylanwadol mewn byr amser, a llawer cenedl fawr wedi cwympo megis un dydd. Y mae i genhedloedd, fel i bersonau, eu hamseroedd rhagosodedig. Ni chaffer y Cymry yn amharod pan ddelo amser eu hymweliad.

***Y Parchedig Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan)***

**Gweddi adeg Gwyl Ddewi**

Ein trugarog Dad, a Thad ein cenedl a chenhedloedd daear, edrych arnom yn dy dosturi. Â'th hael ysbryd cynnal ni yn ein gwendidau a'n pryderon. Cofiwn fel y buost yn dyner tuag atom fel pobl, ac er i ni dy anghofio mor aml, eto dygaist ni i wybodaeth ohonot trwy ymroad gwÿr a gwragedd a lynodd ym mhob amgylchiad wrth yr Efengyl.

Mawrygwn di am mai gŵr amryddawn o'r enw Dewi a glywodd alwad yr Efengyl oedd nawddsant ein cenedl, ac am i Ti ei fendithio yn helaeth yn ei waith o wynebu peryglon anuniongrededd y tu mewn i'r Eglwys Geltaidd, yn ogystal â brwydro'n ddewr, wyneb yn wyneb ag anwybodaeth a rhagfarn y paganiaid a oedd yn cydoesi ag ef.

Diolchwn felly am ystyr dydd Gŵyl Ddewi, mai cofio un o'th seintiau a wnawn. Clywsom lawer tro mai sant ydyw person sy'n caru Duw ac yn dilyn yn ffyddlon yr Arglwydd Iesu Grist. Dymunwn ninnau fod ymhlith y saint, a derbyn nodweddion y rhai a alwyd gennyt yn saint, sef: ffydd fywiol ynot, argyhoeddiad o arbenigrwydd Iesu Grist fel y Duw-ddyn, dewrder yn ein proffes, ac aberth yn ein crefydd. Ar ddydd Gŵyl Ddewi, teimlwn mai tannau coll yn ein telyn ydyw'r tannau hyn, ac am hynny, ein Tad nefol, nertha ni i garu'r pethau a garodd Dewi fel un o genhadon Efengyl tangnefedd.

Diolchwn i Ti am y glendid sydd i'w weld mor aml yng ngorffennol ein cenedl; am yr emynwyr a ganodd odlau ysbrydol peraidd; am gerddorion a briododd yr emyn a'r dôn; ac am ysgolheigion a llenorion a gostrelodd feddyliau dyrchafol yng ngwisg iaith a drysorwn. Dymunwn dy gydnabod yn ddiolchgar, ein Tad nefol, am ddiwygwyr cymdeithasol, a'u tystiolaeth o blaid cymod a chyfiawnder, a welodd drais y blynyddoedd ond a fu'n gydwybod effro i'w cyd-fforddolion. Dymunwn gadw ysbryd ac aberth ein cyndadau yn wyrddlas er mwyn arbed ein hiaith rhag cael ei hanghofio. Byddwn ffyddlon i Gymru, i gyd-ddyn ac i Iesu Grist holl ddyddiau ein heinioes. Gofynnwn hyn oll yn enw ac yn haeddiant ein Harglwydd Iesu. Amen.